# Trosolwg o'r Wers: Hafan Ddiogel

| | | |
|---|---|---|
| **LLINYN:** | Diogelwch | **Hyd y Wers:**<br>Hyd at 60 munud |
| **CYFNOD ALLWEDDOL:** | Cyfnod Sylfaen – Blwyddyn 2 | |
| **GWERS:** | Hafan Ddiogel | |

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn pennu hawliau plant a phobl ifainc i gael eu diogelu rhag camdriniaeth ac ecsbloetiaeth. Mae pob plentyn ac unigolyn ifanc mewn perygl posibl o gael eu cam-drin. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae mewn lleihau'r risg hwn. Trwy archwilio i nodweddion perthnasau iach a diogel, gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ar gyfer adnabod risgiau posibl, aros yn ddiogel, a cheisio cymorth os oes angen.

Dylid cyflwyno'r wers perthnasau diogelach fel rhan o raglen addysg rhyw a chydberthynas ac ABCh yr ysgol. Dylai fod yn gyson â pholisi addysg rhyw'r ysgol a'r fframwaith gwerthoedd cytunedig ar gyfer addysg rhyw a chydberthynas. Sicrhewch fod y wers yn briodol ar gyfer anghenion dysgwyr o ran eu hoed, aeddfedrwydd, iaith/delweddau a ddefnyddir, a'r ddealltwriaeth sydd angen. Hefyd, dylid ond cyflwyno'r wers hon os yw athro'n bresennol yn y dosbarth bob amser.

Ceir cyngor pellach ynghylch dysgu materion sensitif ar y wefan ABCh drwy ddilyn y ddolen i 'dysgu materion sensitif' ar

http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?skip=1&lang=cy

## NOD

- Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â diogelwch personol a lles yn y cartref

## SGIL

**S** (PD) 1,2, **S** (SD) 3, **S** (M&S) 2,3, **S** (WB) 1,2,8,9, **S** (O) 4,6, **S** (R) 2, **S** (K&U) 5,11,18

## AMREDIAD

**R** (PSWC) 3, 4, 10, 11, 12 **R** (O) 4, 5, **R** (K&U) 2, 5,

## AMCANION

- Adnabod, mynegi a chyfathrebu gwahanol deimladau ac emosiynau
- Deall y gwahaniaeth rhwng ymddygiad priodol ac amhriodol yn y cartref
- Pwy i droi atynt am gymorth a chefnogaeth

## AMCANION DYSGU PLANT

Byddwch chi

- yn dysgu am deimladau ac emosiynau
- deall y gwahaniaeth rhwng ymddygiad cywir ac anghywir yn y cartref
- gwybod beth i wneud os ydych chi'n teimlo'n anniogel

## GEIRIAU ALLWEDDOL

teimladau, diogel, anniogel, help

## ADNODDAU

- Cyflwyniad PowerPoint
- Geiriau allweddol
- Pyped Tarian
- 1 set o gardiau teimladau
- Stori Tarian
- 6 set o fatiau bwrdd tŷ cymylog a heulog
- 6 set o gardiau sortio ymddygiad cywir ac anghywir

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

Dylid ond cyflwyno'r wers hon os oes athro'n bresennol

- Sicrhewch yr esbonnir y cysylltiad â gwersi cyfnod sylfaen eraill (os yn berthnasol)
- Cytunwch ar reolau
- Amlinellwch y cytundeb dosbarth yn glir
- Esboniwch amcanion dysgu a geiriau allweddol

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Cyflwynwch Tarian
- Fel ymarfer dosbarth cyfan, gan ddefnyddio Tarian, ymchwiliwch i wahanol deimladau â'r gêm enwi teimladau
- Amser stori dosbarth cyfan – Stori Tarian
- Amser holi dosbarth cyfan
- Ymarfer sortio grŵp – gan ddefnyddio'r matiau bwrdd tŷ a'r cardiau ymddygiad cywir ac anghywir
- Sesiwn dosbarth er mwyn i'r swyddog ailadrodd y rheolau diogelwch
- Ymarfer help llaw dosbarth er mwyn nodi'r 5 oedolyn dibynadwy y gallai'r disgyblion fynd atynt am help
- Meddwl – pâr – rhannu mae pob disgybl yn dweud wrth yr un sydd nesaf atynt am eu 5 oedolyn dibynadwy

### ADOLYGU

- Aseswch ddealltwriaeth o'r amcanion trwy holi cwestiynau

### AWGRYM – GWEITHGAREDDAU DILYNOL AR GYFER ATHRAWON

Am wybodaeth fanylach ac adnoddau ar gyfer amryw o wersi a gweithgareddau dilynol, ewch i adran yr athrawon ar wefan www.schoolbeat.org.